

Adolygiad Arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru

Cais am dystiolaeth - Crynodeb o'r ymatebion

1. Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd adolygiad arbenigol o Lyfrgelloedd Cyhoeddus yng Nghymru mewn Datganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad gan banel cyfeirio (y Panel) dan gadeiryddiaeth Claire Creaser, Cyfarwyddwr LISU, Prifysgol Loughborough. Aelodau eraill y Panel oedd yr Athro Hywel Roberts, Dr Steve Davies, Prifysgol Caerdydd, a Peter Gomer, Swyddog Polisi, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Cyhoeddodd y Panel gais am dystiolaeth ar 13 Mai, gyda dyddiad cau ar gyfer cyfraniadau ar 20 Mehefin 2014. Gofynnodd y Panel am ymatebion i'r cwestiynau canlynol:

- Pa wasanaethau y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus eu darparu yn y dyfodol i gwrdd ag anghenion pobl Cymru, sy'n newid yn gyson?
- Beth ddylai rôl a swyddogaethau gweithlu llyfrgelloedd cyhoeddus fod yn y dyfodol?
- Sut y gall llyfrgelloedd yng Nghymru gydweithio yn y dyfodol i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol?
- Oes angen fframwaith deddfwriaethol a/neu fodel darparu newydd ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru?
- Unrhyw sylwadau eraill?

Hysbysebwyd y cais am dystiolaeth drwy e-byst a chyfryngau cymdeithasol gan gysylltu ag amrywiol randdeiliaid. Derbyniwyd 42 o ymatebion i'r cais am dystiolaeth, gan amrywiol randdeiliaid:

Sector	Nifer yr ymatebion
Llyfrgelloedd cenedlaethol	1
Llyfrgelloedd cyhoeddus / awdurdodau lleol	6
Cyrff a ariennir yn gyhoeddus	5
Cymdeithasau / grwpiau proffesiynol	5
Trydydd sector / grwpiau diddordeb eraill	9
Undebau llafur	1
Gweithwyr proffesiynol ym maes llyfrgelloedd	9
Aelodau o'r cyhoedd	6

Cafodd y cais am dystiolaeth ei hysbysebu trwy ddatganiad i'r wasg ac e-byst at amrywiol randdeiliaid a nodwyd yn y cynllun cyfathrebu. Fe'i hyrwyddwyd hefyd ar restrau trafod llyfrgelloedd a chyfryngau cymdeithasol.

Hoffai'r Panel ddiolch i'r holl unigolion, sefydliadau a mudiadau sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth. Mae eich mewnbwn yn amhrisiadwy ac fe gafodd ei ystyried fel rhan o'r arolygiad.

Fel rhan o'r cais am dystiolaeth, cynhaliwyd dau gyfarfod rhanbarthol ar gyfer cynrychiolwyr o

lyfrgelloedd cyhoeddus / awdurdodau lleol ar 17 Mehefin yn Llanelli a 20 Mehefin 2014 yng Nghyffordd Llandudno. Mynychodd rhwng 43 y ddau ddigwyddiad.

Hefyd cafodd gohebiaeth ynghylch llyfrgelloedd cyhoeddus gan aelodau o'r cyhoedd a grwpiau cefnogi llyfrgelloedd at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd a CyMAL ei chrynhoi a'i hystyried gan y Panel.

Mae'r crynodeb o'r ymatebion wedi'i drefnu yn ôl prif adrannau'r 5 cwestiwn a gyhoeddwyd gan y Panel. Derbyniwyd nifer bychan o ymatebion cyffredinol i'r cais am dystiolaeth ac mae'r sylwadau wedi'u hystyried o dan y cwestiwn perthnasol.

2. Crynodeb o'r ymatebion

2.1 Pa wasanaethau y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus eu darparu yn y dyfodol i gwrdd ag anghenion pobl Cymru, sy'n newid yn gyson?

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebion y dylai llyfrgelloedd cyhoeddus ddal i gyflawni eu swyddogaethau craidd a fu wrth wraidd eu gwasanaethau ers y cychwyn dros 150 o flynyddoedd yn ôl. Dylai llyfrgelloedd cyhoeddus ddarparu:

- **mynediad yn lleol ac yn ddi-dâl** at adnoddau a gwybodaeth mewn gwahanol fformatau i ddiwallu gwahanol anghenion y cyhoedd
- lle diogel a diduedd yng nghalon cymunedau
- staff gwybodus i gynorthwyo defnyddwyr
- amrywiaeth o weithgareddau di-dâl mewn llyfrgelloedd ac yn y cymunedau
- lleoliad i bartneriaid gyflenwi gwasanaethau.

Pwysleisiodd aelodau o'r cyhoedd, yn enwedig, bwysigrwydd llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfer datblygu llythrennedd plant, gan fynegi pryder am effaith cau llyfrgelloedd cyhoeddus ar lefelau llythrennedd plant. Nodwyd yr angen am gydwethio agos rhwng ysgolion, gwasanaethau llyfrgelloedd ysgol a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Y prif newid a amlinellwyd yn y degawd diwethaf oedd darparu mwy o wasanaethau ar-lein di-dâl, Wi-Fi a mynediad gyda chymorth at gyfrifiaduron personol a'r rhyngrwyd. Pwysleisiwyd yr angen i ddatblygu a gwella gwasanaethau ar-lein sydd ar gael 24/7 yn ogystal â chynnal y cydbwysedd â'r gwasanaethau llyfrgell mwy traddodiadol.

Dangosodd yr ymateb yn glir fod llyfrgelloedd cyhoeddus yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru trwy hyrwyddo:

- llythrennedd
- dysgu gydol oes
- llythrennedd gwybodaeth
- cynhwysiant digidol
- cyflogaeth
- cynhwysiant cymdeithasol
- cydlyniant cymunedol
- iechyd a lles
- Yr iaith Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg e.e. casgliad hanes lleol

- hyrwyddo diwylliant a threftadaeth.

Mae'r engrifftiau a amlinellwyd uchod yn helpu i fynd i'r afael â thlodi ac yn cyfoethogi bywydau pobl.

Pwysleisiwyd swyddogaeth llyfrgelloedd cyhoeddus ar gyfer darparu mynediad a chymorth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau fel Paru Swyddi Ar-lein a Chredyd Cynhwysol, y byddir yn ei gyflenwi ar-lein yn bennaf.

Mynewyd pryder ynghylch darparu gwasanaethau llyfrgell yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig gan fod llai o wasanaeth yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng llyfrgelloedd symudol.

2.2 Beth ddylai rôl a swyddogaethau gweithlu llyfrgelloedd cyhoeddus fod yn y dyfodol?

Pwysleisiodd yr ymatebion swyddogaeth bwysig gweithlu medrus ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau a'r gweithgareddau a amlinellwyd yn 2.1. Pwysleisiodd y rhai a ymatebodd swyddogaeth y staff medrus o ran helpu'r cyhoedd i ddefnyddio cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd, hyrwyddo darllen er mwyn pleser a llythrennedd, dangos y ffordd a darparu gwybodaeth. Crybwylwyd swyddogaeth gynyddol staff llyfrgelloedd fel addysgwyr a swyddogion sy'n ymgysylltu â'r gymuned. Darparodd Cymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru ddyfyniadau sy'n tanlinellu'r gwerth y mae defnyddwyr llyfrgelloedd yn ei roi ar staff llyfrgelloedd. Fodd bynnag, mynewyd pryder ynghylch lefel isel bresennol y staff mewn llyfrgelloedd o'i chymharu â dangosyddion Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar y gwasanaethau.

Er mwyn cynnal sgiliau staff llyfrgelloedd, amlinellwyd yr angen i ddatblygu llwybr gyrafa clir ar gyfer staff a rhaglen i ddatblygu/hyfforddi'r gweithlu. Nodwyd bod angen i'r rhaglen hyfforddi ranbarthol barhau. Nodwyd yn arbennig yr angen i ddatblygu hyder a gwybodaeth staff ar gyfer defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ac ymgysylltu â'r gymuned leol.

Cydnabuwyd rôl gynyddol gwirfoddolwyr o ran cyfrannu at gyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Nododd y rhai a ymatebodd fod angen datblygu cyfraniad gwirfoddolwyr mewn ffordd a reolir yn ofalus gan ddilyn canllawiau gan gyrrf fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Y model dewisol a amlinellwyd oedd cael gwirfoddolwyr i gydweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau a staff llyfrgelloedd awdurdodau lleol ac nid cymryd lle staff llyfrgelloedd cyhoeddus. Pwysleisiwyd yr angen i fuddsoddi er mwyn datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr gwirfoddolwyr a'r gwirfoddolwyr eu hunain. Crybwylwyd hefyd rôl ragweithiol bosibl grwpiau 'Cyfeillion y Llyfrgell' i gefnogi cyflenwi gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus, e.e. trwy godi arian.

2.3 Sut y gall llyfrgelloedd yng Nghymru gydweithio yn y dyfodol i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol ar gyfer pobl Cymru ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol?

Pwysleisiodd yr ymatebion y cynnydd ardderchog a wnaed yng Nghymru yn y blynnyddoedd diwethaf o ran datblygu a hyrwyddo cydweithrediad rhwng llyfrgelloedd cyhoeddus, mathau eraill o lyfrgelloedd a gwasanaethau eraill gan gynnwys:

- partneriaethau rhanbarthol

- caffael llyfrau ac e-adnoddau yn genedlaethol
- rhyngfenthyca
- datblygu cynulleidfa oedd
- hyfforddi staff
- cytundebau mynediad traws-sectoraidd er mwyn gwella mynediad gan y cyhoedd i gasgliadau
- cydleoliad
- asiantaethau llythrennedd
- asiantaethau cyflogaeth
- asiantaethau dysgu gydol oes
- Cymunedau 2.0.

Yn ogystal â datblygu'r cydweithio uchod, pwysleisiodd yr ymatebion hefyd yr angen am lawer ychwaneg o gydweithio i greu gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus mwy cynaliadwy. Er enghraifft, gellir datblygu:

- system rheoli llyfrgelloedd i Gymru
- rhannu sgiliau ar draws ffiniau awdurdodau lleol
- rhannu swyddogaethau swyddfa gefn
- llyfrgell ddigidol / gwasanaethau ar-lein
- llyfrgelloedd a reolir / gefnogir gan gymunedau
- ffyrdd arloesol newydd o gyflenwi gwasanaethau craidd.

2.4 Oes angen fframwaith deddfwriaethol a/neu fodel darparu newydd ar gyfer gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru?

Pwysleisiodd y rhai a ymatebodd bwysigrwydd natur statudol gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus. Roedd cefnogaeth dros ystyried Deddf Llyfrgelloedd newydd i Gymru y byddai angen iddi adlewyrchu rôl fwy cyfannol gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn yr 21ain ganrif. Fodd bynnag roedd mwy o gefnogaeth gan sector y llyfrgelloedd cyhoeddus, yn enwedig yn y seminarau, i wneud Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn ganllawiau statudol i'w defnyddio ochr yn ochr â Deddf bresennol 1964 i helpu i ddiffinio gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus "cynhwysfawr ac effeithlon". Pwysleisiwyd y diffyg eglurder o ran beth a olygir wrth "gynhwysfawr ac effeithlon" a dywedwyd bod hyn yn fater o bwys yn enwedig wrth gynllunio i ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol ac yn enwedig gan fod pethau'n anodd yn economaidd y dyddiau hyn.

Nododd y rhai a ymatebodd y bu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn gatalydd pwysig i wella mynediad at wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus ledled Cymru a sicrhau mwy o gydraddoldeb o ran mynediad. Roedd ar y rhai a ymatebodd eisiau mwy o eglurder hefyd ynghylch unrhyw ymyrraeth gan y Gweinidog o ganlyniad i fethu cwrdd â'r Safonau, e.e. petai gwasanaeth llyfrgelloedd awdurdod lleol yn methu cyflawni isafswm nifer o Safonau.

Dangosodd yr ymatebion gefnogaeth gynyddol, o gymharu ag ymgynghoriad cyhoeddus y strategaeth Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli, i ryw fath o wasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cenedlaethol i Gymru. Roedd yr amrywiol awgrymiadau'n cynnwys:

- gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus cenedlaethol i Gymru, e.e. tebyg i Libraries NI yng Ngogledd Iwerddon; neu

- corff cyd-drefnu cenedlaethol gan gyflenwi'r gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yn lleol/rhanbarthol.

2.5 Unrhyw sylwadau eraill?

Roedd yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio llyfrgelloedd a'r mudiadau sy'n bartneriaid i llyfrgelloedd yn canmol y gwasanaethau a'r gefnogaeth a ddarperir gan llyfrgelloedd cyhoeddus.

Pwysleisiodd aelodau o'r cyhoedd effaith cau llyfrgelloedd cyhoeddus ar eu teuluoedd a'u cymunedau. Tynnwyd sylw at ystod o effeithiau andwyol gan gynnwys llythrenedd plant, dysgu gydol oes, cynhwysiant digidol a mynd i'r afael â thlodi. Tynnwyd sylw hefyd at effaith lleihau darpariaeth llyfrgelloedd symudol mewn ardaloedd gwledig.

Pwysleisiodd y rhai a ymatebodd fod cyfanswm costau presennol darparu llyfrgell gyhoeddus yn ganran isel iawn o holl wariant awdurdodau lleol a bod gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus eisoes yn effeithlon iawn.

Galwodd nifer o gynrychiolwyr o grwpiau cymunedol am gymorth i ddatblygu llyfrgelloedd a reolir gan gymunedau a galwodd un am roi iddynt yr un statws â llyfrgelloedd a reolir gan awdurdodau lleol.

3. Y Camau Nesaf

Mae'r Panel wedi ystyried y dystiolaeth hon wrth baratoi eu hadroddiad terfynol a gyflwynwyd i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon ar y pryd ym mis Awst. Bwriedir dechrau rhoi rhai agweddu ar yr adroddiad ar waith fel rhan o strategaeth bresennol Llywodraeth Cymru i ddatblygu llyfrgelloedd, sef *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli*. Cyhoeddir yr adroddiad yn llawn hefyd ym mis Hydref ac mae CyMAL yn gwahodd sylwadau fydd yn ffurfi rhan o strategaeth llyfrgelloedd newydd a ddatblygir i olyn u *Llyfrgelloedd yn Ysbrydoli* yn 2016.